Wedi ysbaid am de a sgwrs yn y festri, cafwyd oedfa bregethu yn yr hwyr yn Noddfa, Llambed. Cafwyd datganiad cerddorol gan Gôr Corisma, côr sy'n cynnwys mwy nag un aelod o eglwysi'r cylch, a chan un o ieuenctid Noddfa sef Elan Jones. Un o gyn-weinidogion Noddfa, Bethel a Chaersalem, sef y Parchedig D. Hugh Matthews, a draddododd y siars ar sail Actau 2:14, 'Safodd Pedr ynghyd â'r un-ar-ddeg araith, a chododd ei lais a'u hannerch', sef araith Pedr ar Ddydd y Pentecost. Cymerwyd rhan hefyd gan y Parchedigion Glan Roberts ac Alwyn Daniels, hwythau'n gyn-weinidogion (ac Alwyn yn gyfaill coleg i'r gweinidog newydd). Mr T. Gareth Jones o'r Eglwys Efengylaidd, cymydog i'r gweinidog newydd a'i wraig, a gyhoeddodd y fendith. Roedd Alwena Evans wrth yr organ. Fel yn y prynhawn, profwyd bendith fawr.

Mae Densil wedi dechrau ar ei waith yn weinidog yn y Cylch ers 1 Hydref 2018, yn olynu'r Parchedig Jill Tomos. Nid yw yn ddieithr i neb ohonom erbyn hyn nac i bobl tref Llambed ychwaith, gan ei fod e ac Ann wedi setlo yno oddi ar 2010; mae'r ddau yn aelodau gweithgar yn eglwys Noddfa lle mae Ann yn ysgrifennydd. Maent yn cyfrannu'n helaeth at weithgarwch yn y gymuned.

Dymunwn fendith ar y bennod newydd hon yng Nghylch Eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi.

Delyth Morgans Phillips, Ysgrifennydd y Cylch

Cyfeiriad a rhifau ffôn y Gweinidog

Y Gilfach,
Heol y Gogledd,
Llanbedr Pont Steffan
SA48 7JA

Rhifau ffon: 01570 422413
07792 238763

Deufis

Eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi **Chwefror a Mawrth 2019**

Trefn oedfaon y Sul

3 Chwefror		
Aberduar	10.00 y bore	Gweinidog—Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	Gweinidog—Cymun
Noddfa	3.30 y prynhawn	Gweinidog—Cymun
10 Chwefror		
Aberduar	10.00 y bore	Beti Griffiths
Bethel	10.15 y bore	Gweinidog—Cymun
Seion	1.30 y prynhawn	Gweinidog—Cymun
Brynhafod	3.00 y prynhawn	Gweinidog—Cymun
17 Chwefror		
Noddfa	9.30 y bore	Gweinidog
Aberduar	11.00 y bore	Gweinidog
Brynhafod	1.30 y prynhawn	Gweinidog
24 Chwefror		
Aberduar	10.00 y bore	Ffred Ffransis
Bethel	10.15 y bore	Delyth Morgans Phillips
Seion	1.30 y prynhawn	Delyth Morgans Phillips
3 Mawrth		
Aberduar	10.00 y bore	Gweinidog—Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	Gweinidog—Cymun
Noddfa	3.30 y prynhawn	Gweinidog—Cymun

drosodd/...

Trefn y Suliau (parhad)

10 Mawrth

Aberduar	10.00 y bore	Rhys Bebb Jones
Bethel	10.15 y bore	Gruffydd Rhys Davies
Seion a Brynhafod	2.00 y prynhawn ym Mrynhafod	Gruffydd Rhys Davies

17 Mawrth

Noddfa	9.30 y bore	Gweinidog
Aberduar	11.00 y bore	Gweinidog
Brynhafod	1.30 y prynhawn	Gweinidog

24 Mawrth

Aberduar	10.00 y bore	Maria Evans
Bethel	10.15 y bore	Gweinidog—Cymun
Seion	1.30 y prynhawn	Gweinidog—Cymun

Astudiaeth feiblaidd
Llyfr yr Actau (parhad)

12 Chwefror	Actau 10:1-48, Paul, Pedr a Cornelius
26 Chwefror	Actau 11:1-30, 12:1-25, Antioch a hanes Herod
12 Mawrth	Actau 13:1-52, 14:1-28, Y daith genhadol gyntaf
26 Mawrth	Actau 15:1-41, Cyngor Jerusalem

7.15 Nosweithiau Mawrth, Y Gilfach, Heol y Gogledd, Llambed

Croeso cynnes i bawb

Y Cylch Darllen
Pori yn y Salmau (parhad)

13 Chwefror	Salm 51 – Cyffes y brenin Dafydd
13 Mawrth	Salm 90 – ‘Duw ein nerth mewn oesoedd gynt’

10.30 boreau Mercher, Festri Noddfa

Croeso i aelodau newydd

Cyrddau Sefydlu’r Parchg D. Densil Morgan
12 Ionawr 2019

Roedd dydd Sadwrn 12 Ionawr 2019 yn ddiwrnod arbennig iawn yn hanes Cylch Bedyddwyr Gogledd Teifi. Cynhaliwyd oedfaon i sefydlu’r Parchedig Ddr D. Densil Morgan yn weinidog ar ein heglwysi: Aberduar, Bethel, Brynhafod, Caersalem, Noddfa a Seion.

Cynhaliwyd yr oedfa sefydlu yn Aberduar yn y prynhawn, gyda’r Parchedig Jill Tomos, y cyn-weinidog, yn llywyddu a’r Parchedigion Wynn Vittle, cyn-weinidog Aberduar, Seion a Brynhafod, ac Eirian Wyn Lewis, yntau wedi ei fagu yn Aberduar, yn cymryd at y rhannau arweiniol. Roedd y sefydlu yng ngofal y Parchedig Judith Morris, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Bedyddwyr Cymru, gyda Delyth Morgans Phillips yn rhoi hanes yr alwad a’r gweinidog newydd yn ymateb iddi. Un arall o blant Aberduar, sef y Parchedig D. Aled Davies, a offrymodd yr urdd weddi a phregethwyd yn afaelgar iawn ar weledigaeth Eseciel 37, ‘Fab dyn, a all yr esgyn hyn fyw?’ gan Y Parchedig Olaf Davies, yntau’n gyn-weinidog Aberduar, Seion a Brynhafod ac yn gyfaill coleg i’r gweinidog newydd. Cafwyd cyfarchion gan y Parchedigion Ieuan Elfryn Jones ar ran y Coleg Gwyn ym Mangor, Eirian Wyn, ar ran mam-eglwys y gweinidog newydd sef Seion Newydd, Treforus, a Bill Fillery, offeiriad mewn gofal yn Llanwenog a Llanybydder, ar ran yr eglwysi lleol. Geraint Puw, Llywydd y Gymanfa, a roes gyfarchion ar ran Cymanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion. Roedd hi’n oedfa o sylwedd gydag eneiniad ar y pregethu ac ar holl gynnwys y prynhawn. Roedd Rhiannon Lewis wrth yr organ a chyhoeddwyd y fendith gan y Parchedig Owain Llŷr Evans, yntau’n fab i un o gyn-weinidogion Aberduar.

Parhad ar y ddalen nesaf